Joint Council for Qualifications

**Canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig**

Yn weithredol o 1 Medi 2025.

At sylw penaethiaid canolfannau, uwch arweinwyr mewn ysgolion a cholegau a swyddogion arholiadau

Mae’r ddogfen hon yn ymdrin â'r cymwysterau canlynol:

AQA - Cymwysterau Cyffredinol Cymhwysol
AQA - Tystysgrif Lefel 2 Mathemateg Bellach
AQA - Tystysgrif Lefel 3 Astudiaethau Mathemategol
BTEC - Cymwysterau Cyntaf, Cymwysterau Cenedlaethol a Dyfarniadau Technegol
Caergrawnt - Cymwysterau Cenedlaethol Uwch
Caergrawnt - Cymwysterau Cenedlaethol
Caergrawnt - Cymwysterau Technegol
City & Guilds - cymwysterau Lefel 2 a Lefel 3 Technegol
FSMQ
TAG UG a Safon Uwch
TGAU
NCFE - Lefel 1 / Lefel 2 Dyfarniadau Technegol
NCFE - cymwysterau Lefel 3 Cyffredinol Cymhwysol a Galwedigaethol
OCR - Tystysgrifau Lefel 3
Lefelau T (cymwysterau Technegol)
TQUK - cymwysterau Dylunio, Peiriannu, Adeiladu!
CBAC - cymwysterau Lefel 1 a Lefel 2 Cyffredinol
CBAC - cymwysterau Lefel 1 a Lefel 2 Galwedigaethol
CBAC - Lefel 1 a Lefel 2 Dyfarniadau Galwedigaethol (Dyfarniadau Technegol)
CBAC - Lefel 3 Tystysgrifau, Diplomâu a Thystysgrifau Estynedig Cymhwysol (yn cynnwys Cymwysterau Academaidd Amgen)

**Cynhyrchwyd ar ran:**

©2025

## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **Manylion cyswllt** | | **2** |
| **1** | **Ystyriaeth arbennig** | **3** |
| **2** | **Pa ymgeiswyr fydd yn gymwys ar gyfer ystyriaeth arbennig?** | **4** |
| **3** | **Ymgeiswyr sy'n bresennol ar gyfer yr asesiad ond sydd dan anfantais** | **6** |
| **4** | **Ymgeiswyr sy'n absennol o gydran/uned ar yr amserlen am resymau derbyniol** | **8** |
| **5** | **Materion eraill** | **11** |
| **6** | **Prosesu ceisiadau am ystyriaeth arbennig** | **13** |
| **7** | **Addasiadau ar ôl yr asesiad – ystyriaeth arbennig (cymwysterau galwedigaethol eraill** | **17** |

# Manylion cyswllt

**AQA**
**Ffôn: 0800 197 7162**
Gwefan: www.aqa.org.uk

**City & Guilds**
Gwefan: www.cityandguilds.com

**CCEA**
**Ffôn: 02890 261 200**
Gwefan: www.ccea.org.uk

**NCFE**
**Ffôn: 0191 239 8000**
Gwefan: www.ncfe.org.uk

**OCR**
**Ffôn: 01223 553 998**
Gwefan: www.ocr.org.uk

**Pearson**
**Ffôn: 0344 463 2535**
Gwefan:
http://qualifications.pearson.com

**TQUK**
**Ffôn: 03333 58 3344**
Gwefan: www.tquk.org

**WJEC/CBAC**
**Ffôn: 02920 265 000**
Gwefan: www.cbac.co.uk

**Rhaid** codi pob ymholiad ynghylch ystyriaeth arbennig gyda'r corff dyfarnu perthnasol, **nid** y Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ). Ni chaiff y Cyd-gyngor Cymwysterau ymdrin ag ymholiadau ynghylch ystyriaeth arbennig.

Mae unrhyw newidiadau a wnaed i gynnwys y ddogfen hon ers y fersiwn blaenorol (1 Medi 2024 hyd at 31 Awst 2025) wedi'u hamlygu mewn melyn fel eu bod yn hawdd eu gweld.

# 1 Ystyriaeth arbennig

**Dim ond** mewn achosion lle mae mater neu ddigwyddiad andwyol wedi effeithio'n sylweddol, neu ei fod yn rhesymol debygol o fod wedi gwneud hynny, ar allu ymgeisydd i sefyll asesiad neu i ddangos ei lefel arferol o gyrhaeddiad mewn asesiad y **dylai** canolfannau gyflwyno ceisiadau am ystyriaeth arbennig. Er enghraifft, rhoddir ystyriaeth arbennig i ymgeisydd sydd wedi profi salwch, anaf neu ddigwyddiad arall dros dro sydd y tu hwnt i'w rheolaeth **ar adeg yr asesiad.**

**Rhaid** i ganolfan benderfynu p'un a yw'r ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf cyhoeddedig ar gyfer ystyriaeth arbennig. **Ni all** corff dyfarnu benderfynu a yw'r ymgeisydd yn gymwys ai peidio a gwneud y penderfyniad dros y ganolfan.

**Dim ond** lle mae'r ganolfan yn cefnogi hynny y dylid prosesu ceisiadau a dylai'r ymgeisydd hefyd fodloni'r meini prawf cyhoeddedig ar gyfer ystyriaeth arbennig gyda'r dystiolaeth yn ei lle.

Os nad yw'r ganolfan yn cefnogi cais ar-lein am ystyriaeth arbennig, yna **ni ddylid** ei gyflwyno i'r corff neu gyrff dyfarnu perthnasol. **Ni ellir** derbyn ceisiadau dyfaliadol am ystyriaeth arbennig.

**Os nad** yw ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf cyhoeddedig ar gyfer ystyriaeth arbennig, bydd y corff dyfarnu'n gwrthod y cais ac yn cynnig rhesymau clir dros hynny.

**Ni ddylai** canolfannau gyflwyno ceisiadau am ystyriaeth arbennig ar gyfer achosion dibwys. Mae paragraffau 2.1 a 3.3 yn nodi'r amgylchiadau y dylai ystyriaeth arbennig fod yn berthnasol iddynt.

Ymhlith enghreifftiau o achosion dibwys **na fyddai'n** gymwys am ystyriaeth arbennig y mae:

aderyn yn trydar y tu allan i'r ystafell arholiadau;

lori'n mynd am yn ôl;

fflysio toiled;

drysau'n agor a chau yn y coridor y tu allan i'r ystafell arholiadau;

sŵn awyrennau, hofrenyddion neu beiriannau torri gwair am gyfnod byr, achlysurol.

Dim ond rhywfaint o gymorth y gall ystyriaeth arbennig ei roi i ymgeisydd sydd wedi'i effeithio gan amrywiaeth eang o anawsterau posibl, rhai emosiynol neu gorfforol, a allai ddylanwadu ar ei berfformiad yn ystod yr asesiadau. Ni all gael gwared ar yr anhawster y mae'r ymgeisydd yn ei wynebu. Mae hyn yn golygu y bydd rhai sefyllfaoedd lle na ddylai ymgeiswyr gael eu cofrestru ar gyfer cymhwyster neu arholiad unedol. Mae hyn oherwydd mai dim ond addasiadau bach y gellir eu gwneud i'r marc a roddir. Byddai gwneud addasiadau mwy yn peryglu safon y cymhwyster.

Mae gofynion sylfaenol ar gyfer graddio uwch mewn achosion o absenoldeb derbyniol (gweler Pennod 4, adran 4.3).

Mae pob asesiad yn mesur yr hyn y mae'r ymgeisydd yn ei wybod ac yn gallu ei wneud. Dim ond pan fydd ymgeisydd wedi'i baratoi'n llawn ar gyfer asesiad ac wedi ymdrin â'r cwrs llawn y mae'n bosibl dyfarnu ystyriaeth arbennig. Bydd amgylchiadau andwyol y tu hwnt i'w reolaeth **ar adeg yr asesiad(au)** wedi effeithio ar ei allu i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth am y pwnc.

Nid yw'n bosibl gwneud cais am ystyriaeth arbennig os nad oedd yr ymgeisydd wedi gallu datblygu ei wybodaeth a dealltwriaeth am y pwnc oherwydd bod absenoldeb yn ystod y cwrs, ymuno â'r cwrs yn hwyr neu brinder staff, gwaith adeiladu wedi'i gynllunio neu ddiffyg cyfleusterau arbenigol yn amharu ar addysgu a dysgu.

Rhaid i'r radd gyffredinol (graddau cyffredinol) a ddyfernir adlewyrchu lefel cyrhaeddiad yr ymgeisydd a ddangoswyd yn ystod yr asesiad(au). Ni fyddai cymwysterau'n adlewyrchiad cywir o gyrhaeddiad ymgeiswyr pe byddai addysgu a dysgu coll yn destun ystyriaeth arbennig.

## 2 Pa ymgeiswyr fydd yn gymwys ar gyfer ystyriaeth arbennig?

**Rhaid** gwneud cais am ystyriaeth arbennig **ar adeg yr asesiad.**

2.1 Bydd ymgeiswyr yn gymwys ar gyfer ystyriaeth arbennig os ydynt wedi cael eu paratoi'n llawn ac wedi astudio'r cwrs cyfan, ond bod eu perfformiad yn ystod yr arholiad, neu wrth lunio gwaith cwrs neu asesiad di-arholiad wedi cael ei effeithio'n sylweddol gan amgylchiadau andwyol y tu hwnt i'w rheolaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

2.1.1 Afiechyd dros dro neu ddamwain/anaf **ar adeg yr asesiad.**

2.1.2 Profedigaeth **ar adeg yr asesiad** (pan fo grwpiau cyfan wedi cael eu heffeithio, dim ond y rhai sydd agosaf fydd yn gymwys fel arfer).

2.1.3 Argyfwng domestig yn digwydd **ar adeg yr asesiad.**

2.1.4 Aflonyddwch difrifol **yn ystod yr arholiad**.

2.1.5 Digwyddiadau damweiniol **ar adeg yr asesiad**, megis derbyn y papur arholiad anghywir, derbyn papur arholiad neu CD diffygiol, offer ymarferol yn methu, deunyddiau'n methu â chyrraedd ar amser.

2.1.6 Cymryd rhan mewn digwyddiadau chwaraeon, gwersylloedd hyfforddi neu ddigwyddiadau eraill **ar lefel ryngwladol ar adeg yr asesiad**, e.e. cynrychioli eu clwb neu wlad ar lefel ryngwladol mewn gemau gwyddbwyll neu bêl-droed ar ddiwrnod yr arholiad.

2.1.7 Y ganolfan yn methu â gweithredu trefniadau mynediad **a gymeradwywyd yn flaenorol ar gyfer y gyfres arholiadau benodol honno.**

2.2 Pan fo ymgeiswyr wedi'u paratoi'n llawn ar gyfer y fanyleb, ond dewiswyd y testunau anghywir, gellir rhoi ystyriaeth arbennig yn ôl disgresiwn y corff dyfarnu.

**Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau bod y testunau cywir yn cael eu haddysgu.** Lle nad yw hyn wedi digwydd, ni ellir rhoi unrhyw sicrwydd y bydd ymgeisydd yn cael ystyriaeth arbennig. Bydd y corff dyfarnu'n ymchwilio i achosion o'r fath ar sail achosion unigol.

Pan fo'r testunau anghywir wedi cael eu haddysgu, **rhaid** i'r testunau a astudiwyd fod wedi cael eu harholi yn y **fanyleb gyfredol** yn ystod cyfres arholiadau flaenorol.

2.3 Ni fydd ymgeiswyr yn gymwys ar gyfer ystyriaeth arbennig os bydd y gwaith paratoi ar gyfer yr arholiad(au)/asesiad(au), neu'r perfformiad yn ystod yr arholiad wedi ei effeithio gan:

2.3.1 Afiechyd tymor hir neu anawsterau eraill yn ystod y cwrs sy'n effeithio ar amser adolygu, oni bai bod yr afiechyd neu'r amgylchiadau'n gwaethygu yr hyn a fyddai'n fater bach fel arall **ar adeg yr asesiad** (h.y. anawsterau sy'n llawer gwaeth na'r rhai y byddai trefniadau mynediad a gymeradwywyd yn flaenorol wedi'u lleddfu).

2.3.2 Profedigaeth yn digwydd dros chwe mis cyn yr asesiad, oni bai bod **yr asesiad yn cael ei gynnal** ar yr union ddyddiad y digwyddodd neu os oes goblygiadau parhaus, megis cwest neu achos llys neu amgylchiadau eithriadol eraill mewn perthynas ag ymgeisydd unigol.

2.3.3 Anghyfleustra domestig, megis symud tŷ, diffyg cyfleusterau, cymryd gwyliau (gan gynnwys ymweliadau ysgol neu gyfnewid a theithiau maes) ar adeg yr asesiad.

2.3.4 Mân aflonyddwch yn yr ystafell arholiadau a achoswyd gan ymgeisydd arall, megis ymddygiad gwael am ennyd, ffôn symudol neu larwm tân yn canu am ennyd.

2.3.5 Canlyniadau cyflawni trosedd, pan fo wedi'i gyhuddo'n ffurfiol neu wedi'i ganfod yn euog. (Fodd bynnag, gellid ystyried cais ôl-weithredol ar gyfer ystyriaeth arbennig os gollyngir y cyhuddiad yn ddiweddarach neu os bydd yr ymgeisydd yn cael ei ddyfarnu'n ddieuog.)

2.3.6 Canlyniadau cymryd alcohol neu gyffuriau adloniant.

2.3.7 Canlyniadau torri rheoliadau mewnol y ganolfan.

2.3.8 Methiant y ganolfan i baratoi ymgeiswyr yn briodol ar gyfer yr arholiad am ba bynnag reswm.

2.3.9 Ansawdd addysgu, colled addysgu, prinder staff, gwaith adeiladu a drefnwyd neu ddiffyg cyfleusterau.

2.3.10 Camddarllen yr amserlen a/neu fethu â mynychu'r lle cywir ac ar yr amser cywir.

2.3.11 Camddarllen cyfarwyddiadau'r papur cwestiynau ac ateb y cwestiynau anghywir.

2.3.12 Gwneud trefniadau personol, megis priodas neu drefniadau gwyliau sy'n gwrthdaro ag amserlen yr arholiadau.

2.3.13 Peidio â chyflwyno unrhyw waith cwrs neu asesiad di-arholiad, oni bai bod y gwaith cwrs neu asesiad di-arholiad wedi'i drefnu am gyfnod cyfyngedig o amser, yn hytrach nag yn ystod y cwrs.

2.3.14 Methu pob arholiad a chydrannau neu unedau a asesir yn fewnol.

2.3.15 Methu dilyn y cwrs yn llawn o ganlyniad i ymuno â'r dosbarth ran o'r ffordd drwyddo.

2.3.16 Unrhyw anabledd neu anawsterau dysgu (wedi cael diagnosis neu beidio) oni bai bod yr anabledd neu'r anawsterau yn gwaethygu'r hyn a fyddai'n fater bach fel arall **ar adeg yr asesiad**, h.y. anawsterau sy'n waeth na'r rhai y byddai trefniadau mynediad blaenorol wedi'u lleddfu.

2.3.17 Methiant y ganolfan i brosesu trefniadau mynediad erbyn y dyddiad cau swyddogol.

# 3 Ymgeiswyr sy'n bresennol ar gyfer yr asesiad ond sydd dan anfantais

3.1 Rhoddir ystyriaeth arbennig fel arfer trwy gymhwyso canran ar bob cydran/uned a effeithiwyd mewn manyleb. Mae'r ganran yn dibynnu ar amseru, natur a maint y meini prawf cymhwyso. Y ganran fwyaf a fydd yn cael ei rhoi fydd 5% o gyfanswm y marciau crai sydd ar gael yn y gydran/uned dan sylw, gan gynnwys gwaith cwrs ac asesiad di-arholiad.

**Rhaid** i'r ganolfan fod yn fodlon bod effaith andwyol sylweddol wedi bod ar berfformiad arholiad ymgeisydd neu wrth iddo gynhyrchu gwaith cwrs neu asesiad di-arholiad.

3.2 Bydd y ganran yn seiliedig ar ffactorau amrywiol sy'n gallu amrywio o'r naill bwnc i'r llall. Gall y rhain gynnwys:

- difrifoldeb yr amgylchiadau;
- dyddiad yr arholiad mewn perthynas â'r amgylchiadau; a
- natur yr asesiad, e.e. p'un a yw'n effeithio ar bapurau ysgrifenedig yn hytrach na gwaith cwrs neu asesiad di-arholiad, neu p'un a yw'n ymwneud â phrawf ymarferol neu brawf siarad.

3.3 **Ni ellir cymhwyso ystyriaeth arbennig mewn modd cronnus.** Er enghraifft, oherwydd trawma diweddar ar adeg yr arholiad **a'r** ymgeisydd yn dioddef o afiechyd firol.
Dim ond mewn achosion o'r anhwylderau mwyaf difrifol y dylid gwneud cais am ystyriaeth arbennig.

Rhaid i ymgeiswyr neu eu rhieni neu ofalwyr drafod cais ystyriaeth arbennig gyda'r ysgol neu'r coleg dan sylw.

Rhaid i ymgeiswyr preifat gysylltu â'r ysgol neu'r coleg a gyflwynodd gofrestriadau ar eu rhan i wneud cais am ystyriaeth arbennig.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o amgylchiadau canlynol y mae'n **rhaid** iddynt fod yn berthnasol **ar adeg yr asesiad**.

**5%** Dyma'r ganran fwyaf, a bydd yn cael ei neilltuo ar gyfer yr achosion mwyaf eithriadol, megis:

- afiechyd marwol yr ymgeisydd;
- afiechyd marwol rhiant neu ofalwr, brawd neu chwaer;
- marwolaeth aelod o'r teulu agos **o fewn tri mis i'r arholiad;**
- argyfwng neu ddigwyddiad eithriadol ac aflonyddgar **ar adeg neu'n agos at adeg yr arholiad**, megis ymgais i lofruddio yn erbyn yr ymgeisydd.

**4%** Problemau difrifol iawn, megis:

- yr ymgeisydd neu aelod o'r teulu agosaf ag afiechyd sy'n bygwth bywyd;
- llawdriniaeth fawr **ar adeg yr arholiad neu'n agos at hynny**;
- afiechyd difrifol (e.e. canser);
- marwolaeth ddiweddar iawn aelod o'r teulu estynedig;
- anaf all newid bywyd yn digwydd **ar adeg yr arholiad**;
- argyfwng neu ddigwyddiad difrifol **ar adeg yr arholiad**, megis ymosodiad difrifol neu ddamwain ddifrifol;
- cymryd i'r ysbyty oherwydd cyflwr iechyd meddwl neu anhwylder bwyta.

**Noder** diffinnir 'diweddar iawn' fel cyfnod o fewn un mis i'r arholiad(au). **Rhaid** i'r ganolfan fod yn fodlon bod effaith andwyol sylweddol wedi bod ar berfformiad arholiad ymgeisydd neu wrth iddo gynhyrchu gwaith cwrs neu asesiad di-arholiad.

**3%** Categori mwy cyffredin (bydd mwy o achosion yn perthyn i'r categori hwn), gan gynnwys:

- profiad trawmatig **diweddar**, megis marwolaeth ffrind agos neu berthynas pell;
- afiechyd neu anaf **diweddar** o natur fwy difrifol;
- cyflwr meddygol tymor hir yn gwaethygu, er enghraifft clefyd Crohn;
- cyflwr seicolegol neu gyflwr iechyd meddwl yn gwaethygu;
- anabledd ymgeisydd yn dirywio;
- braich neu goes wedi torri;
- trawma ymosodiad corfforol cyn arholiad;
- argyfwng neu ddigwyddiad diweddar;
- bod yn dyst i ddigwyddiad sy'n peri gofid **ar ddiwrnod yr arholiad**;
- trefniant (trefniadau) mynediad wedi'u cymeradwyo heb eu darparu ar gyfer yr ymgeisydd ar adeg yr arholiad;
- seiberymosodiad yn effeithio'n sylweddol ar gwblhau gwaith cwrs neu asesiadau di-arholiad ymgeisydd.

**Noder** diffinnir 'diweddar' fel cyfnod o hyd at bedwar mis cyn yr arholiad(au). **Rhaid** i'r ganolfan fod yn fodlon bod effaith andwyol sylweddol wedi bod ar berfformiad arholiad ymgeisydd neu wrth iddo gynhyrchu gwaith cwrs neu asesiad di-arholiad.

**2%** Dyma'r categori mwyaf cyffredin (bydd y rhan fwyaf o achosion yn perthyn i'r categori hwn), yn cynnwys:

- afiechyd **ar adeg yr arholiad**;
- triniaeth am iselder ysgafn;
- braich neu goes wedi torri yn gwella;
- cyfergyd;
- effeithiau beichiogrwydd (**nid** beichiogrwydd fel y cyfryw);
- trallod mawr **ar ddiwrnod yr arholiad** (**nid** straen sy'n gysylltiedig ag arholiad **yn unig**);
- 2% ar gyfer y arholiad diwethaf sy'n cael ei sefyll ar ddiwrnod pan fo ymgeisydd wedi'i gofrestru ar gyfer tri arholiad neu fwy **wedi'u hamserlennu ar gyfer yr un diwrnod** a phan fo cyfanswm hyd y papurau hynny **dros** 5 awr 30 munud (arholiadau TGAU, Lefel 1 a Lefel 2) neu **dros** 6 awr (arholiadau TAG a Lefel 3).

  (Pan fo amser ychwanegol wedi'i ddefnyddio yn dilyn cymeradwyaeth ffurfiol, dylid cynnwys hyn yng nghyfanswm hyd yr arholiadau wrth wneud cais am ystyriaeth arbennig.)

  (Ni ddylid cynnwys egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth yng nghyfanswm hyd yr arholiadau wrth wneud cais am ystyriaeth arbennig.)

**1%** Wedi'i neilltuo ar gyfer problemau llai:

- sŵn parhaus yn ystod arholiad;
- afiechyd ymgeisydd arall sy'n arwain at fân amharu yn yr ystafell arholiadau;
- straen neu orbryder y ceisiwyd cyngor meddygol ar ei gyfer a/neu y cafwyd meddyginiaeth ar bresgripsiwn ar ei gyfer;
- clefyd y gwair **ar ddiwrnod yr arholiad;**
- ychydig o anrhefn yn deillio o broblemau gweinyddol, megis dosbarthu'r papur cwestiynau anghywir i ddechrau.

Pan fydd y cais am ystyriaeth arbennig yn methu â bodloni'r meini prawf, bydd yn cael ei wrthod gyda rheswm clir wedi'i roi dros hynny.

# 4 Ymgeiswyr sy'n absennol o gydran/uned a amserlennwyd am resymau derbyniol

4.1 Pan fydd ymgeisydd wedi colli cydran/uned a amserlennwyd am resymau derbyniol, a'r ganolfan yn barod i gefnogi cais am ystyriaeth arbennig, gellir gwneud addasiad i'r radd. Yn achos cymwysterau unedol, **rhaid** bod wedi colli'r gydran/uned yn y gyfres derfynol a **rhaid** bodloni gofynion sylfaenol adran 4.3.

Ni chaiff cyrff dyfarnu roi cyngor ynghylch a yw ymgeisydd yn addas i sefyll arholiad. **Rhaid** i staff y canolfannau ddilyn eu gweithdrefnau mewnol ar gyfer ymdrin ag ymgeiswyr sy'n teimlo'n sâl ar ddiwrnod yr arholiad.

4.2 Ar gyfer arholiadau unedol a wneir yn ystod cyfres arholiadau cyn ardystio, **rhaid** ail-gofrestru ymgeiswyr ar gyfer unrhyw unedau a gollwyd yn ystod y cyfle asesu nesaf. Oni bai bod anawsterau'n codi, e.e. perfformiadau grŵp na ellir eu hailadrodd, **ni** roddir ystyriaeth arbennig.

Mae'r egwyddor hon hefyd yn berthnasol pan fo carfanau cyfan yn colli unedau am unrhyw reswm, megis tywydd garw, neu pan fo ymgeiswyr unigol yn colli unedau oherwydd newid canolfan.

### Gofynion sylfaenol ar gyfer graddio uwch mewn achosion o absenoldeb derbyniol

4.3 Nodir y gofynion sylfaenol ar gyfer graddio uwch mewn achosion o absenoldeb derbyniol isod. Ym mhob achos, **rhaid** i'r ymgeiswyr fod wedi'u paratoi'n llawn a bod wedi cwmpasu'r cwrs cyfan.

**Cymwysterau TAG UG a Safon Uwch (Manylebau AQA, OCR, Pearson a CBAC):** mae'n **rhaid** bod un gydran/uned gyfan, sy'n isafswm o 15% o gyfanswm yr asesiad, wedi'i chwblhau.

Sylwer **nad** yw cwblhau unedau UG neu U2 yn rhannol yn dderbyniol.

- **Manylebau Llinol UG:** mae'n **rhaid** bod un gydran/uned gyfan, sy'n isafswm o 15% o gyfanswm yr asesiad, wedi'i chwblhau.
- **Manylebau unedol UG**: mae'n **rhaid** bod un gydran/uned gyfan, sy'n isafswm o 15% o gyfanswm yr asesiad, wedi'i chwblhau.
- Bydd unrhyw welliant a roddir ar lefel UG (manylebau unedol) yn cael ei drosglwyddo i Safon Uwch.
- **Manylebau llinol Safon Uwch:** mae'n **rhaid** bod un gydran/uned gyfan, sy'n isafswm o 15% o gyfanswm yr asesiad, wedi'i chwblhau.
- **Dyfarniad chwe uned Safon Uwch (manylebau unedol)**: mae'n rhaid bod un gydran/uned gyfan, sy'n isafswm o 15% o gyfanswm yr asesiad, wedi'i chwblhau gydag **o leiaf un** uned U2 wedi'i chwblhau.
- **Dyfarniad pedair uned Safon Uwch (manylebau unedol)**: mae'n rhaid bod un gydran/uned gyfan, sy'n isafswm o 15% o gyfanswm yr asesiad, wedi'i chwblhau gydag **o leiaf un** uned U2 wedi'i chwblhau.
- **Ni** roddir **dyfarniad Safon Uwch (manylebau unedol)** ar sail canlyniadau unedau UG yn unig.

**TGAU (Manylebau AQA, OCR, Pearson a CBAC):** mae'n **rhaid** bod un gydran/uned gyfan, sy'n isafswm o 15% o gyfanswm yr asesiad, wedi'i chwblhau.

**Ar gyfer cymwysterau CCEA TAG UG a Safon Uwch, a chymwysterau TGAU, rhaid** bod wedi cwblhau 25% o'r asesiad cyfan.

Mae manylion y gofynion sylfaenol ar gyfer cyfres arholiadau Tachwedd 2025, Mawrth 2026 a Mehefin 2026 i'w gweld isod.

- Ar gyfer **cymwysterau CCEA TAG UG**, **rhaid** bod wedi cwblhau 25% o'r cymhwyster UG cyfan.
- Ar gyfer **cymwysterau CCEA TAG Safon Uwch**, **rhaid** bod wedi cwblhau 25% o'r cymhwyster Safon Uwch cyfan, gydag o leiaf un uned U2 wedi'i chwblhau.
- Ar gyfer **cymwysterau CCEA TGAU**, **rhaid** bod wedi cwblhau 25% o'r cymhwyster TGAU.

Mae'r trefniadau hyn ond yn berthnasol i ymgeiswyr sy'n ardystio yn y gyfres lle mae'r arholiad wedi'i golli. **Rhaid** i'r ymgeiswyr hynny sydd ddim yn ardystio yn y gyfres lle mae'r arholiad wedi'i golli sefyll yr arholiad yn y gyfres nesaf sydd ar gael.

Sylwer **nad** yw cwblhau unedau TGAU, TAG UG neu U2 yn rhannol yn dderbyniol.

**Ni ellir** gwneud ceisiadau ôl-weithredol ar gyfer ystyriaeth arbennig yn seiliedig ar y meini prawf hyn.

**Cymwysterau Cyntaf BTEC, Cymwysterau Cenedlaethol BTEC**: **rhaid** bod wedi cwblhau 25% o'r cymhwyster cyfan.
**Dyfarniad Technegol BTEC: rhaid** bod wedi cwblhau un gydran gyflawn.

**Cymwysterau Technegol Lefel 2 a Lefel 3 City & Guilds: rhaid** bod wedi cwblhau'r aseiniad(au) synoptig.

**NCFE (arholiadau wedi'u marcio'n rhifiadol): rhaid** bod wedi cwblhau 25% o'r cymhwyster cyfan.

**OCR Cymwysterau Cenedlaethol Caergrawnt, Cymwysterau Cenedlaethol Uwch Caergrawnt a chymwysterau Technegol Caergrawnt: rhaid** bod wedi cwblhau un uned gyflawn. Gall hyn fod naill ai'n arholiad wedi'i amserlennu neu'n uned wedi'i chymedroli. Dim ond yn y gyfres ardystio y mae graddio uwch mewn achosion o absenoldeb derbyniol yn bosibl.

**Projectau (yn cynnwys Project Estynedig):** os nad yw project wedi'i gwblhau, **ni ellir** rhoi gradd.

**Cymwysterau Technegol Lefel T: rhaid** bod wedi cwblhau un is-gydran gyfan, a gall hyn fod naill ai'n arholiad neu'n broject wedi'i osod gan gyflogwr.

**Cymwysterau Technegol Lefel T NCFE a chymhwyster Technegol Lefel T City & Guilds mewn Gofal a Rheoli Anifeiliaid: rhaid** bod wedi cwblhau 25% o'r Arbenigedd Alwedigaethol. Nid yw'n bosibl cymhwyso graddio uwch at aseiniadau ymarferol.

**Cymwysterau TQUK (arholiadau wedi'u marcio'n rhifiadol): rhaid** bod wedi cwblhau 25% o'r cymhwyster TGAU.

Mewn **amgylchiadau prin ac eithriadol** lle na all y ganolfan nodi addasiadau rhesymol ychwanegol a fyddai'n caniatáu i ymgeisydd anabl sefyll ei arholiadau, **rhaid** cysylltu â'r corff/cyrff dyfarnu perthnasol. Bydd y corff dyfarnu'n penderfynu ar bob achos yn unigol, gan ddod i ddeall amgylchiadau unigol yr ymgeisydd a gwneud addasiadau priodol lle bynnag y bo'n bosibl er mwyn gallu sefyll arholiadau. Efallai y bydd corff dyfarnu yn gallu pennu graddau ar gyfer ymgeisydd anabl gan ddefnyddio tystiolaeth asesu amgen addas.

Dylai canolfannau gyfeirio at dudalen 20-21 o ddogfen y CGC *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol* i gael gwybodaeth fanylach.

# 5 Materion eraill

## Ardystiad arall

5.1 Lle mae ymgeisydd wedi'i baratoi'n llawn a'i gofrestru ar gyfer cymhwyster ond mae wedi dod ar draws amgylchiadau lliniarol eithriadol sydd y tu hwnt i'w reolaeth ac nid yw'n gallu sefyll unrhyw arholiadau neu asesiadau a osodir gan unrhyw gorff dyfarnu, dylai'r ganolfan gysylltu â'r corff dyfarnu perthnasol. Bydd y corff dyfarnu'n cynghori'r ganolfan ynglŷn â'r broses a'r wybodaeth sy'n ofynnol. Er enghraifft, gall corff dyfarnu ddarparu datganiad o gydnabyddiaeth.

Mae datganiad o gydnabyddiaeth yn cofnodi'r graddau y byddai'r ymgeisydd yn debygol o fod wedi'u cael am gymwysterau, yn ôl y ganolfan, pe bai arholiadau neu asesiadau a osodir gan y corff dyfarnu wedi'u cwblhau. Bwriad y datganiad o gydnabyddiaeth yw cefnogi dilyniant yr ymgeisydd i'r cam nesaf o ran addysg, hyfforddiant, neu gyflogaeth. Gall lywio unrhyw drafodaethau i hwyluso dilyniant i sefydliadau addysg bellach neu addysg uwch, darparwyr addysg eraill neu gyflogwyr. Mae'r datganiad o gydnabyddiaeth hwn yn cael ei ddarparu gan y corff dyfarnu yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparodd y ganolfan. **Nid** yw'n dystysgrif cymhwyster**.**

Pan fo ymgeisydd wedi marw neu'n angheuol wael, dylai'r ganolfan gysylltu â'r corff dyfarnu perthnasol a allai gyhoeddi tystysgrif anrhydeddus neu ddyfarniad ar ôl marwolaeth.

## Diffyg mewn gwaith (gwaith cwrs neu asesiad di-arholiad)

5.2 Os yw ymgeisydd wedi dioddef afiechyd sydyn neu ryw anhap arall yn ystod cyfnod cynhyrchu'r gwaith, gall fod yn bosibl derbyn llai o waith heb gosb mewn rhai pynciau. Fodd bynnag, **rhaid bod wedi ymdrin â'r holl amcanion asesu o leiaf unwaith.** Ni fydd yn bosibl gwneud hyn os mai dim ond un darn mae’r fanyleb yn gofyn amdano.

Pan fo angen sawl darn o waith, dim ond os yw'r darnau hynny'n profi'r un meini prawf y bydd y gostyngiad yn cael ei dderbyn. Ni fydd modd ystyried hyn ym mhob achos. Er enghraifft, os na chyflwynwyd gwaith, os nad yw'r amcanion asesu wedi'u bodloni, neu os ymunodd yr ymgeisydd â'r cwrs yn hwyr.

**Ni ddylai'r ganolfan wneud unrhyw newid i'r marciau**. Dylid cyflwyno Ffurflen 10 – JCQ/SC† i'r corff dyfarnu ynghlwm wrth grynodeb o'r marciau ar draws yr amcanion asesu.

**Rhaid** i'r ymgeiswyr fod wedi'u paratoi'n llawn am y cwrs ond nad oeddent wedi gallu gorffen y gwaith. Ni fydd cyrff dyfarnu fel arfer yn cytuno o flaen llaw i lai o waith gael ei gyflwyno.

† **Ni ddylai** canolfannau AQA, CCEA nac OCR gyflwyno Ffurflen 10 – JCQ/SC. **Rhaid** cyflwyno ceisiadau ar-lein gan ddefnyddio AQA Centre Services, CCEA SpC Online neu OCR Interchange, fel y bo'n briodol.

## Gwaith sy’n cael ei golli neu ei ddifrodi (cydrannau/unedau asesu di-arholiad)

5.3 Cyfeiriwch at ddogfen y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal asesiadau di-arholiad:* https://www.cbac.co.uk/media/rn3pz05o/8-nea-25-26-w.pdf

## Problemau eraill

5.4 Mae yna amgylchiadau sy'n codi trwy ddamwain, a gall fod angen cyngor gan arbenigwr. Er enghraifft, pe rhoddir papur cwestiynau anghywir i'r ymgeisydd neu os yw papur cwestiynau'n ddiffygiol mewn rhyw ffordd, megis tudalen wedi'i hargraffu'n anghywir.

Rhoddir ystyriaeth arbennig i'r achosion hyn trwy ddulliau gwahanol i'r rhai a nodwyd hyd yma. Efallai y bydd angen eu cyfeirio at swyddog pwnc neu uwch arholwr ar gyfer gwneud penderfyniad ar bwnc penodol o ran sut y dylid dyfarnu ystyriaeth arbennig. Mae hyn yn golygu ei bod yn bosibl na fydd y canlyniadau'n dangos yr ychwanegiad ar unwaith. Efallai y bydd addasiad wedi'i wneud i'r marciau i adlewyrchu'r hyn sydd wedi digwydd.

5.5 Dylid cyflwyno cais am ystyriaeth arbennig i'r corff dyfarnu perthnasol pan fo'r papur anghywir wedi'i sefyll gan ymgeisydd, neu pan fo'r papur cywir wedi'i roi yn lle'r papur anghywir, neu pan fo'r ymgeisydd wedi sefyll y ddau. Mae yna amgylchiadau lle nad yw'n bosibl i gorff dyfarnu roi ystyriaeth arbennig i ymgeiswyr sydd wedi rhoi cynnig ar bapur anghywir.

5.6 Pan fo ymgeiswyr wedi cymryd yr aseiniad gwaith cwrs neu asesiad di-arholiad anghywir, gall y ganolfan gyflwyno cais am ystyriaeth arbennig os nad oes modd cofrestru ymgeiswyr yn ystod y cyfle asesu nesaf. Mae yna amgylchiadau lle nad yw'n bosibl i gorff dyfarnu roi ystyriaeth arbennig i ymgeiswyr sydd wedi rhoi cynnig ar gydran neu uned asesiad di-arholiad anghywir.

Lle mae ymgeiswyr wedi:

- derbyn y papur cwestiynau anghywir;
- cael y dasg gwaith cwrs neu asesiad di-arholiad anghywir wedi'i gosod ar eu cyfer; neu
- y testun gosod anghywir wedi'i addysgu iddynt;

gall corff dyfarnu ymchwilio i hyn fel achos o gamweinyddu.

# 6 Prosesu ceisiadau am ystyriaeth arbennig

## Ceisiadau ar-lein am ystyriaeth arbennig

- Cyn prosesu ceisiadau ar-lein, **rhaid** i'r ganolfan fod yn fodlon bod amgylchiadau'r ymgeiswyr yn galw am ystyriaeth arbennig, fel y nodir yn y ddogfen hon, a bod digon o dystiolaeth ar gyfer y ceisiadau hyn.
- **Rhaid** prosesu ceisiadau am ystyriaeth arbennig ar gyfer cymwysterau CBAC, AQA, CCEA, City & Guilds, NCFE, OCR, Pearson a TQUK ar-lein. **Rhaid** i'r ganolfan roi gwybod i ymgeisydd pan mae cais am ystyriaeth arbennig yn cael ei gyflwyno i'r corff dyfarnu. **Rhaid** i'r ganolfan sicrhau ei bod yn cydymffurfio â GDPR y DU a'r Ddeddf Diogelu Data 2018.
- **Rhaid** gwneud ceisiadau ar-lein ar gyfer arholiadau ysgrifenedig wedi'u hamserlennu. **Ni chaiff** ffurflenni papur eu derbyn. **Ni ddylid** cyflwyno taenlenni i gyrff dyfarnu.
- Gwneir ceisiadau ar-lein am ystyriaeth arbennig trwy Wasanaethau Canolfan AQA, CCEA SpC Online, Edexcel Online, gwefan ddiogel NCFE, OCR Interchange, system reoli Verve TQUK a safle Porth CBAC.
- Yn y rhan fwyaf o achosion bydd y system ar-lein yn rhoi penderfyniad ar unwaith.
- Ar gyfer AQA, CCEA, City & Guilds, NCFE, OCR a TQUK, **rhaid** i ganolfannau hefyd wneud ceisiadau ar-lein pan fo problemau gyda chydrannau neu unedau a asesir yn fewnol, megis gwaith cwrs ac asesiadau di-arholiad, ac mewn achosion sy'n cynnwys grwpiau o ymgeiswyr. **Ni chaiff** ffurflenni papur eu derbyn gan AQA, CCEA, City & Guilds, NCFE OCR a TQUK.
- Pan fo ymgeisydd yn bresennol ond dan anfantais ar gyfer arholiad ysgrifenedig wedi'i amserlennu, gellir gwneud cais ar-lein ar gyfer yr holl gydrannau/unedau oedd wedi'u heffeithio unwaith y bydd yr arholiadau drosodd neu unwaith y bydd yr ymgeisydd wedi dod ato'i hun – pa bynnag un sy'n digwydd gyntaf. Nid oes angen gwneud ceisiadau ar wahân ar gyfer arholiadau unigol.
- **Rhaid** i'r ganolfan gefnogi pob cais gyda thystiolaeth briodol wedi'i hawdurdodi gan aelod o'r uwch dîm arwain. **Rhaid i'r ganolfan gadw'r dystiolaeth hon tan ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau.** Pan fo ymgeisydd yn bresennol ond dan anfantais ar gyfer arholiad ysgrifenedig wedi'i amserlennu, bydd cyfran o achosion yn cael eu samplu gan gorff dyfarnu er mwyn sicrhau ansawdd. Efallai y bydd corff dyfarnu yn gofyn i ganolfan ddarparu tystiolaeth i gefnogi'r cais.
- Pan fo ymgeisydd yn absennol o arholiad am reswm derbyniol, **rhaid** prosesu cais ar-lein ar wahân ar gyfer pob arholiad a gollwyd.
- **Rhaid** i'r ganolfan gefnogi pob cais gyda thystiolaeth briodol wedi'i hawdurdodi gan aelod o'r uwch dîm arwain. Pan fo'r ganolfan yn ymwybodol bod gan ymgeisydd gyflwr meddygol parhaus a all achosi absenoldeb di-rybudd, neu ei bod yn hysbys bod yr ymgeisydd yn dioddef o afiechyd yn y cyfnod cyn yr arholiad neu fod yr ymgeisydd yn sâl pan gyrhaeddodd yr arholiad ac wedi'i anfon adref, yna gellir llunio datganiad i gefnogi cais ar-lein am ystyriaeth arbennig. Does dim angen tystiolaeth feddygol ffurfiol. **Rhaid i'r ganolfan gadw'r dystiolaeth hon tan ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau.** Pan fo ymgeisydd yn absennol o arholiad am reswm derbyniol, bydd cyfran o achosion yn cael eu samplu gan gorff dyfarnu er mwyn sicrhau ansawdd. Efallai y bydd corff dyfarnu yn gofyn i ganolfan ddarparu tystiolaeth ategol.
- Os nad yw'r ganolfan yn cefnogi cais ar-lein am ystyriaeth arbennig, yna **ni ddylid** ei gyflwyno i'r corff neu gyrff dyfarnu perthnasol.
- **Ni ellir** derbyn ceisiadau dyfaliadol am ystyriaeth arbennig.

**Mae cyrff dyfarnu yn cadw'r hawl i alw tystiolaeth i mewn.**

## Ceisiadau sy'n cael eu gwneud ar ôl cyhoeddi canlyniadau

6.1 **Ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau, dim ond dan yr amgylchiadau mwyaf eithriadol y bydd ceisiadau hwyr yn cael eu derbyn a rhaid eu cyflwyno cyn y dyddiad cau ar gyfer adolygiadau o ganlyniadau'r cyfresi arholiadau dan sylw.**

Mae'n **rhaid** i aelod o'r uwch dîm arwain gynhyrchu tystiolaeth rymus i gefnogi cais hwyr.

Mae gan gyrff dyfarnu broses apelio gyhoeddedig ar gyfer penderfyniadau ynghylch ystyriaeth arbennig. Nodir y broses hon yn nogfen y CGC, *Canllaw i brosesau apelio'r cyrff dyfarnu:* http://www.jcq.org.uk/exams-office/appeals

## Rhai enghreifftiau pan fo ystyriaeth arbennig yn briodol a phan nad yw'n briodol

**Enghraifft 1**

Mae ymgeisydd Blwyddyn 12 yn sefyll ei arholiadau TAG UG ym mis Mehefin 2026. Nid yw'r ymgeisydd yn gallu mynychu unrhyw un o'i arholiadau UG (Cemeg, Mathemateg a Ffiseg) oherwydd anaf dros dro. Bydd y ganolfan yn ei ail-gofrestru ar gyfer TAG UG Cemeg, Mathemateg a Ffiseg y cyfle asesu nesaf posibl – Mehefin 2027.

**Enghraifft 2**

Mae ymgeisydd yn methu dau arholiad TGAU ar yr un diwrnod oherwydd afiechyd: Ffrangeg yn y bore a Cyfrifiadureg yn y prynhawn. Mae hi'n bodloni'r gofynion sylfaenol ar gyfer dyfarniad TGAU ym mis Mehefin 2026, ar ôl cwblhau dros 15% o'r holl asesiad yn y ddau bwnc TGAU*. Mae'r ganolfan yn gwneud cais am ystyriaeth arbennig. Gan fod y ganolfan yn ymwybodol nad yw'r ymgeisydd wedi bod yn dda ers sawl diwrnod, gallant ysgrifennu llythyr o gefnogaeth i gyfiawnhau ei habsenoldeb o'r ddau arholiad TGAU.

**Enghraifft 3**

Mae ymgeisydd yn sefyll arholiad TAG Safon Uwch Llywodraeth a Gwleidyddiaeth fore dydd Iau. Mae'n hysbys ei fod yn cael trafferth gyda haint ar y frest ac yn y glust, ond eto i gyd, mae'n benderfynol o sefyll ei arholiad. Mae afiechyd yr ymgeisydd yn gwbl amlwg i'r tîm goruchwylio. Mae'r ganolfan yn cyflwyno cais am ystyriaeth arbennig ar-lein, gan fod yr ymgeisydd yn bresennol ar gyfer ei arholiad Llywodraeth a Gwleidyddiaeth ond dan anfantais. Fodd bynnag, nid yw'r ymgeisydd yn gallu mynychu ei arholiad TAG Safon Uwch Almaeneg y bore canlynol. Mae'n bodloni'r gofynion sylfaenol ar gyfer dyfarniad TAG Safon Uwch Almaeneg gan ei fod eisoes wedi cwblhau un arholiad sy'n werth mwy na 15% o'r holl asesiad. Gall y ganolfan ysgrifennu datganiad yn cefnogi'r cais am ystyriaeth arbennig gan ei bod yn gwybod ei fod yn dechrau teimlo'n sâl cyn iddo fod yn absennol o'r arholiad fore dydd Gwener.

**Enghraifft 4**

Mae ymgeisydd yn sefyll arholiad TGAU Eidaleg brynhawn dydd Iau. Nid oedd unrhyw broblemau hysbys yn ystod yr arholiad ar y dydd Iau. Fodd bynnag, nid yw hi'n mynychu ei harholiad TGAU Daearyddiaeth fore dydd Gwener. Mae ei mam yn cysylltu â swyddfa'r ysgol ar fore'r arholiad Daearyddiaeth i hysbysu am ei habsenoldeb oherwydd anhwylder stumog. Nid oes tystiolaeth feddygol ar gael i gefnogi'r cais. Mae'r ganolfan yn cynghori'r rhiant i gwblhau rhan berthnasol Ffurflen 14 – JCQ/ME a mynd â hi wedyn i swyddfa'r ysgol. O dderbyn Ffurflen 14, mae'r ganolfan yn teimlo y gall gefnogi'r cais ac mae'n cyflwyno cais ar-lein am ystyriaeth arbennig. Mae'r Ffurflen 14 yn cael ei chadw yn ffeiliau'r ganolfan.

**Enghraifft 5**

Mae ymgeisydd yn sefyll arholiad TAG Safon Uwch mewn Economeg fore dydd Llun. Mae'n cael triniaeth ar gyfer afiechyd difrifol. Yn ddiweddar, rhagnodwyd meddyginiaeth ar gyfer yr ymgeisydd sy'n achosi sgil-effeithiau difrifol. Mae'r ymgeisydd yn sefyll ei arholiad TAG Safon Uwch Economeg yn ôl yr amserlen ond nid yw'n gallu sefyll ei arholiadau TAG Safon Uwch Astudio'r Cyfryngau a Safon Uwch Addysg Gorfforol. Mae'n gallu bodloni'r rheolau ar gyfer ystyriaeth arbennig. Mae eisoes wedi cwblhau un gydran/uned asesu di-arholiad Safon Uwch Addysg Gorfforol sy'n 15% o gyfanswm yr asesiad ac un papur Safon Uwch Astudio'r Cyfryngau sy'n werth mwy na 15% o gyfanswm yr asesiad. Mae'r ymgeisydd yn ymweld â'i feddyg teulu, ac oherwydd ei gwybodaeth am ei chlaf a'i gyflwr, mae'n fwy na pharod i lunio nodyn ar gyfer yr ysgol. Yn yr un modd, mae ei ysgol yn barod i ysgrifennu datganiad cefnogol.

*Ar gyfer manylebau CCEA TGAU, **rhaid** bod wedi cwblhau 25% o'r asesiad cyfan.

**Enghraifft 6**

Mae canolfan yn cofrestru ymgeisydd ar gyfer cymhwyster Lefel 2 Technegol. Mae gan yr ymgeisydd gais wedi'i gymeradwyo am 25% o amser ychwanegol. Pan fydd yr ymgeisydd yn sefyll arholiad ar-lein mae'n cael ei ddarganfod na chafodd y 25% o amser ychwanegol ei ychwanegu at hyd yr arholiad. Methodd y ganolfan ag ychwanegu'r lwfans amser ychwanegol o 25% wrth drefnu'r arholiad. Cyflwynir cais am ystyriaeth arbennig i'r corff dyfarnu gan fod gan yr ymgeisydd gais wedi'i gymeradwyo'n barod am 25% o amser ychwanegol.

**Enghraifft 7**

Mae ymgeisydd ym mlwyddyn cyntaf cymhwyster Lefel T Technegol. Oherwydd afiechyd, mae'r ymgeisydd yn absennol ar gyfer holl bapurau'r arholiad Craidd ond mae'n cwblhau'r project wedi'i osod gan y cyflogwr. Dim ond ym mlwyddyn gyntaf cwrs dwy flynedd y mae'r ymgeisydd, nid ei gyfres arholiadau olaf yw hon, felly **nid yw'n bosibl** gwneud cais am ystyriaeth arbennig.

**Enghraifft 8**

Mae ymgeisydd ym mlwyddyn gyntaf cwrs BTEC Cenedlaethol dwy flynedd. Mae'r ymgeisydd yn absennol o arholiad ar yr amserlen oherwydd afiechyd ac nid yw wedi cwblhau unrhyw unedau wedi'u hasesu'n fewnol. Gan nad yw'r ymgeisydd i fod i ardystio tan y flwyddyn nesaf, ac y bydd cyfleoedd pellach i'r ymgeisydd ailsefyll yr arholiad, gwrthodir y cais am ystyriaeth arbennig.

**Enghraifft 9**

Mae ymgeisydd yn ail flwyddyn cwrs BTEC Cyntaf dwy flynedd. Oherwydd afiechyd, mae'r ymgeisydd yn absennol ar gyfer un papur yng nghyfres Ionawr. Cadarnhaodd y ganolfan na fyddai'r ymgeisydd yn gallu ailsefyll yr arholiad yng nghyfres Mehefin oherwydd ei amgylchiadau lliniarol. Bydd yr ymgeisydd yn ardystio yng nghyfres Mehefin, felly caiff 'aegrotat' ei ohirio a bydd yn cael ei gyfrifo yn y gyfres ardystio.

# 7 Addasiadau ar ôl yr asesiad – ystyriaeth arbennig (cymwysterau galwedigaethol eraill)

Mae'r adran hon yn ymwneud â mathau eraill o gymwysterau galwedigaethol a allai fod yn rhai ar alw, seiliedig ar gredydau, yn galw am arddangos cymhwysedd ymarferol neu'n rhoi 'Trwydded i Ymarfer'.

## 7.1 Rhoi ystyriaeth arbennig – cymwysterau galwedigaethol

Bydd penderfyniad y corff dyfarnu i roi ystyriaeth arbennig mewn cymwysterau galwedigaethol wedi'i seilio ar wahanol ffactorau, a allai amrywio o ddysgwr i ddysgwr a rhwng un asesiad a'r llall. Gall y ffactorau hyn gynnwys difrifoldeb yr amgylchiadau, dyddiad yr asesiad, a natur yr asesiad.

Mae'n bwysig nodi ei bod yn bosibl na ellir rhoi ystyriaeth arbennig pan fo:

- angen dangos cymhwysedd ymarferol ar gyfer asesu;
- rhaid bodloni'r meini prawf asesu yn llwyr;
- unedau neu gymwysterau yn rhoi 'Trwydded i Ymarfer'.

Pan fo asesiad wedi'i golli neu pan fo ar ffurf prawf ar gais, megis prawf electronig wedi'i osod a'i farcio gan gyfrifiadur, dylai'r ganolfan gynnig cyfle i'r dysgwr gymryd yr asesiad yn ddiweddarach.

Ar gyfer cymwysterau galwedigaethol sy'n debyg o ran eu natur i gymwysterau cyffredinol, gall cyrff dyfarnu, mewn rhai amgylchiadau, weithredu'r gofynion sylfaenol ar gyfer graddio uwch mewn achosion o absenoldeb derbyniol fel yr amlinellir yn adran 4.3.

**Rhaid** ceisio cyngor y corff dyfarnu perthnasol bob amser.

## 7.2 Gwneud cais am ystyriaeth arbennig mewn cymwysterau galwedigaethol

**Rhaid** gwneud cais am ystyriaeth arbennig ar sail achosion unigol. **Rhaid** gwneud ceisiadau ar wahân ar gyfer pob dysgwr. Yr unig eithriad ar gyfer hyn yw pan fo grŵp o ddysgwyr wedi'u heffeithio gan amgylchiadau tebyg yn ystod asesiad, megis papur cwestiynau diffygiol. **Rhaid** atodi rhestr o ddysgwyr sydd wedi'u heffeithio ynghlwm wrth y cais.

**Rhaid** cyflwyno ceisiadau am ystyriaeth arbennig i'r corff dyfarnu perthnasol yn unol â gofynion cyhoeddedig y corff dyfarnu.

I sicrhau y gellir prosesu ceisiadau yn effeithiol, **rhaid** i ganolfannau hefyd gyflwyno tystiolaeth i gefnogi'r cais. Er enghraifft, datganiad gan aelod o staff y ganolfan neu unrhyw wybodaeth briodol arall.

**Rhaid** i bennaeth y ganolfan, uwch arholwr neu brif weithredwr awdurdodi pob cais am ystyriaeth arbennig.

Bydd corff dyfarnu ond yn cysylltu â'r ganolfan, nid gyda'r dysgwr.

**Ni ystyrir rhoi ystyriaeth arbennig unwaith y bydd cyflawniad dysgwr wedi'i hawlio a'i ardystio.**

## 7.3 Gwaith sy’n cael ei golli neu ei ddifrodi (gwaith wedi'i asesu'n fewnol)

Pan fydd gwaith wedi ei golli neu ei ddifrodi oherwydd digwyddiadau y tu allan i reolaeth y dysgwr, gall corff dyfarnu ystyried cais am ystyriaeth arbennig. Ym mhob achos, **rhaid** i'r ganolfan allu dilysu bod y gwaith wedi’i gwblhau a’i fod wedi cael ei fonitro wrth i’r ymgeisydd weithio arno.

Ar gyfer cymwysterau sy'n seiliedig ar gymhwysedd, rhaid i'r ganolfan gadw cofnodion asesu ar wahân i bortffolio'r dysgwr. Mewn achos o golli portffolio, gellir defnyddio'r cofnodion hyn gan y ganolfan – ynghyd â sesiynau holi ac ateb wedi'u dogfennu'n llawn neu ddatganiadau ysgrifenedig, fel y bo'n briodol – i gadarnhau cymhwysedd y dysgwr. Os caiff portffolio ei ail-greu oherwydd bod tystiolaeth wedi'i cholli, yna dylid ei ddilysu'n fewnol.

**Rhaid** i'r ganolfan ddilyn gweithdrefnau cyhoeddedig y corff dyfarnu ar gyfer gwaith sy'n cael ei golli neu ei ddifrodi.

## 7.4 Tystysgrifau eraill

Lle mae ymgeisydd wedi'i baratoi'n llawn a'i gofrestru ar gyfer cymhwyster ond mae wedi dod ar draws amgylchiadau lliniarol eithriadol sydd y tu hwnt i'w reolaeth ac nid yw'n gallu sefyll unrhyw arholiadau neu asesiadau a osodir gan unrhyw gorff dyfarnu, dylai'r ganolfan gysylltu â'r corff dyfarnu perthnasol. Bydd y corff dyfarnu'n cynghori'r ganolfan ynglŷn â'r broses a'r wybodaeth sy'n ofynnol. Gall corff dyfarnu ddarparu datganiad o gydnabyddiaeth[1].

Pan fo ymgeisydd wedi marw neu'n angheuol wael, dylai'r ganolfan gysylltu â'r corff dyfarnu perthnasol a allai gyhoeddi tystysgrif anrhydeddus neu ddyfarniad ar ôl marwolaeth.

[1] Am wybodaeth bellach am ddatganiad cydnabyddiaeth, gweler adran 5.1.